

# Jerwood

## UNITE 2021

Rhaglen breswyl naw wythnos mewn stiwdio artistiaid yw UNITE. Wedi'i lleoli yn g39, mae'n gyfle ar gyfer datblygiad artistig, arbrofi, ymchwilio, trafodaethau creadigol a rhagor.

Rydym yn falch o gyflwyno Jerwood UNITE yn 2021, mewn cydweithrediad â Jerwood Arts, cyllidwr annibynnol sy'n ymrwmo i gefnogi artistiaid, curaduron a chynhyrchwyr rhagorol i ddatblygu a ffynnu.

Os hoffech dderbyn y wybodaeth hon ar fformat gwahanol, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'n gwaith gwella hygyrchedd ac ymgysylltu, yna cysylltwch â ni.

### Gwahoddiad

Rydym yn chwilio am bump artist i gymryd rhan yn Jerwood UNITE 2021.

Mae rhaglen UNITE g39 wedi bod yn rhedeg am saith mlynedd. Mae'n ein galluogi ni gyfarfod â phobl newydd a gweld ymarfer artistig unigolion. Rydym am i'n sefydliad fod yn agored, yn groesawgar ac yn newid yn gyson.

Er mwyn sicrhau bod y cyfle hwn yn agored i fwy o artistiaid, bydd pob artist yn derbyn tâl a chymorth mynediad i gymryd rhan eleni, drwy gefnogaeth Jerwood Arts.

#### Trosolwg:

Manylion:	Rhaglen breswyl naw wythnos
Cymhwyster:	Artist gweledol ar gychwyn gyrfa yn gweithio mewn unrhyw gyfrwng (gweler isod)
Dyddiad cau:	6 Ionawr 2021 (06/01/21)
Cyfweliadau (ar-lein):	20 Ionawr 2021 (20/01/21)
Dyddiadau'r rhaglen:	Dydd Iau 1 Ebrill - Dydd Sadwrn 5 Mehefin 2021 (01/04/21 - 05/06/21)

#### Beth sy'n cael ei gynnig?

Bydd pob artist yn derbyn:	Ffi o £1,750.00 Y rhaglen fel y nodir isod
Bydd artistiaid hefyd yn cael cynnig:	Costau llety a theithio i artistiaid sy'n byw dros 90 munud (mewn car) i ffwrdd o Gaerdydd Costau tuag at unrhyw anghenion hygyrchedd penodol

## Ydy'r cyfle hwn i mi?

Mae Jerwood UNITE ar gyfer yr artistiaid hynny a fyddai'n elwa fwyaf o'r gefnogaeth a'r ddeialog a gynigir. Dyma gyfle i ddatblygu ar gyfer pobl sy'n awyddus i ddilyn gyrfa yn y celfyddydau gweledol.

Rydym wedi llunio'r rhaglen hon er budd mwyaf i artistiaid ar gychwyn gyrfa, artistiaid sy'n ail-gydio yn eu hymarfer neu'n newid ffocws eu gwaith, neu'r rheiny sy'n symud o faes creadigol perthnasol arall i gelfyddydau gweledol cyfoes. Mae UNITE yn cynnig y cymorth sydd ei angen ar gyfer cymryd y camau nesaf.

Rydym yn chwilio am artistiaid sydd wedi ymrwymo i ddatblygu ymarfer celfyddydol rhagorol, sy'n uchelgeisiol ac yn barod i weithio mewn amgylchedd stiwdio gan ymgysylltu a gweithio ochr yn ochr ag eraill.

Hoffem glywed gan artistiaid a ddigalonwyd yn y gorffennol ac felly heb gymryd cyfleodd tebyg. **Byddwn yn ffafrio artistiaid sydd heb weithio gyda g39 ar brosiect creadigol o'r blaen.**

Rydym yn ymwybodol iawn nad yw llwybr gyrfa yn syml na'n uniongyrchol a bod sawl ffordd o feddwl am lwyddiant. **Nid yw oedran yr artist yn ystyriaeth wrth benderfynu ar gymhwyster yr ymgeiswyr.**

Os ydych chi'n teimlo y byddai'ch gwaith yn elwa'n sylweddol o Jerwood UNITE 2021, yna hoffem glywed gennych chi.

## Mae'r cyfle hwn ar gyfer:

Artist gweledol ar gychwyn gyrfa sy'n gweithio mewn unrhyw gyfrwng ac yn y broses o sefydlu gyrfa.

Artistiaid yn byw yng Nghymru, Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon - byddwn yn cadw tri lle i artistiaid a leolir yng Nghymru / artistiaid Cymreig.

**Nid** yw'r cyfle hwn yn agored i'r rheiny ohonoch sydd mewn addysg ffurfiol yn ystod cyfnod y rhaglen. **Nid** ydym yn edrych am gynigion arddangosfa na'ch syniadau am brosiect gorffenedig.

Rydym yn cydweithio â phobl ni waeth beth yw eu hanabledd, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, statws priodasol, cyfrifoldeb teulu, oedran, hil, tarddiad ethnig, cenedligrwydd (yn amodol ar drwydded gwaith lle bo angen), aelodaeth/gweithgarwch undeb lafur, credoau gwleidyddol neu grefyddol.

Rydym wedi ymrwymo i gefnogi mwy o artistiaid y mae eu cefndir a/neu'u hunaniaeth wedi'u tangynrychioli yn y rhaglen, yn ein hadnoddau ac ymhlith staff a bwrdd g39. Mae hyn yn cynnwys ond nid yw'n gyfyngedig i artistiaid Duon, Asiaidd a'r rheiny o gefndiroedd ethnig amrywiol, artistiaid o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is, artistiaid B/byddar, artistiaid niwroamrywiol, artistiaid gydag anableddau neu anawsterau iechyd hirdymor ac artistiaid sy'n perthyn i'r gymuned LGBTQIA+.

**Byddwn yn cynnig o leiaf ddau le i artistiaid Duon, Asiaidd neu o gefndir ethnig amrywiol. Rydym yn dilyn polisi o Weithredu Cadarnhaol er mwyn sicrhau bod**

**unigolion sydd wedi'u heithrio neu wedi wynebu gwahaniaethu neu anfantais arall, boed hynny yn y gorffennol neu'r presennol, yn eiwa o gyfleoedd g39.**

Ar hyn o bryd rydym yn monitro'r hyn a wnawn drwy ffurflen adborth werthuso, ond fe'i cedwir yn ddiennw ac ar wahân i'ch cais. Os ydych am i ni ystyried eich cefndir neu'ch hunaniaeth yn ystod y broses ddethol, gofynnwn i chi nodi hyn yn eich cais.

## **Beth all artistiaid Jerwood UNITE 2021 ei ddisgwyl oddi wrthym ni:**

- Ffi o £1,750.
- Croeso gan dîm o 5 aelod staff rhan amser g39, a gwahoddiad i ddisgwyddiad cymdeithasol er mwyn dod i adnabod artistiaid a staff.\*
- Mynediad at ofod stiwdio\* ar gyfer ymchwil, datblygu syniadau a chynhyrchu gwaith newydd am 9 wythnos o ddydd Iau 1 Ebrill hyd at ddydd Sadwrn 5 Mehefin (01/04/21 - 05/06/21). Mae modd mynd i'r stiwdios yn ystod oriau agor ein horiel (4 diwrnod yr wythnos).
- Rhaglen ddatblygu o weithgareddau a hyfforddiant.\*

## **Rydym yn gofyn i chi:**

- Fod yn y stiwdio\* am leiafswm o 9 diwrnod yn ystod 9 wythnos y rhaglen.
- Gymryd rhan yn nigwyddiad cyhoeddus 'Stiwdio Agored' ar ddiwedd Jerwood UNITE.

\*Gall yr elfennau hyn i gyd newid, gan ddibynnu ar ganllawiau'r llywodraeth ynglŷn ag ymarfer diogel yn ystod y pandemig cyfredol.

## **Cysylltwch â ni**

Rydym ni'n gweithio i sicrhau bod ein cyfleoedd yn hygyrch a bod y broses o ymgeisio yn hwylus ac yn hawdd ei defnyddio. Rydym ni'n croesawu ac yn annog ceisiadau gan unigolion sy'n wynebu rhwystrau, ac yn gobeithio y gallwn ddiwallu anghenion amred mor eang ag y bo modd o ymgeiswyr.

Cysylltwch â [post@g39.org](mailto:post@g39.org) neu ffoniwch +44(0)2920 473 633 a gadewch neges. Rydyn ni'n gweithio rhan amser, a byddwn yn cydnabod eich neges o fewn tri diwrnod gwaith ac yn ceisio i ateb eich ymholiad neu drefnu amser a dyddiad i sgwrsio ymhellach o fewn pum niwrnod gwaith.

## **Cefnogaeth Hygyrchedd**

Mae cymorth hygyrchedd ar gael i bob ymgeisydd, gan gynnwys fformatau gwahanol a chefnogaeth sydd wedi'i deilwra'n arbennig i'ch galluogi chi wneud cais. Os hoffech dderbyn y ffurflen hon ar fformat gwahanol, neu os hoffech ymgeisio drwy ddull gwahanol (e.e. ar bapur, drwy fformat sain / fideo, neu fersiwn print bras), cysylltwch â ni os gwelwch yn dda. Byddwn yn hapus i drafod ffyrdd eraill mwy addas o gyflwyno'ch cais.

Yn yr un modd, os oes gennych chi ofynion hygyrchedd yr hoffech eu trafod â ni cyn gwneud cais, cysylltwch â ni. Rydyn ni'n clustnodi cyllideb ar gyfer cefnogi anghenion hygyrchedd unigolion.

## Cefnogi'ch cais

Os oes gennych chi gwestiynau pellach, mae'n bosib y cewch hyd i'r ateb yn ein hadran Cwestiynau Cyffredin isod.

Byddwn hefyd yn cynnal sesiynau cyngori ar ffurf dau weithdy grŵp mynediad agored, drwy gyfrwng ZOOM **Dydd Sadwrn, 19eg Mis Rhagfyr 2020, 10yb** a **Dydd Llun, 4ydd Mis Ionawr 2021, 5yp**. Yn ystod y sesiynau hyn bydd cyfle i chi gyfarfod ag aelod o dîm g39 cyn cychwyn ar eich cais. Nid yw'n bosib i ni ddarllen ceisiadau drafft na gwaith ysgrifenedig, ond gallwn drafod pa mor addas ydych a natur y rhaglen a'ch cyngori am sut i gryfhau eich cais.

Bwciwch le yma neu ymweld a: [www.eventbrite.co.uk](http://www.eventbrite.co.uk)  
a chwilio am *g39 Jerwood UNITE FAQ Session*

## Sut i ymgeisio

Gallwch anfon cais drwy e-bost neu drwy'r post.

Dyddiad cau: 6 Ionawr 2021 (06/01/2021)

### 1. Amdanoch chi:

Anfonwch eich enw a'ch manylion cyswllt - cyfeiriad e-bost, cyfeiriad post a rhif ffôn, a nodwch beth yw'r ffordd orau i ni gysylltu â chi. Mae'n help mawr os yw'r wybodaeth hon yn cael ei chynnwys ar bob rhan o'ch cais.

### 2. Eich Gwaith:

Detholiad o hyd at ddeg delwedd neu ddeg gwaith wedi'u hamseru at hyd at 5 munud o hyd, neu gyfuniad o'r ddau, darnau o waith ysgrifenedig (hyd at 750 gair). Os yw'ch gwaith yn aml gyfrwng neu'n cynnwys cymysgedd o gyfryngau a ddim yn gweddu i'r disgrifiad uchod, gwelwch y Cwestiynau Cyffredin.

Byddai'n well gennym weld eich gwaith ar-lein lle bynnag y bo modd. Anfonwch ddolenni i'ch gwefan/nau neu wefannau sy'n lletya'ch gwaith sain/fideo. Anfonwch fanylion am ba waith yr hoffech i ni edrych arno, yn ogystal â chyfrineiriau. Cofiwch gynnwys manylion y delweddau / fideos / gwaith sain rydych yn eu hanfon atom ni (teitl, cyfrwng, blwyddyn a.y.y.b.).

Gofynnwn i chi feddwl yn ofalus am eich detholiad o waith. Rydym yn awyddus i weld eich gwaith diweddaraf neu'r gwaith sy'n fwyaf perthnasol i'ch datganiad. Mae'n ddefnyddiol i ni os yw'r esiamplau o waith yn dangos syniadau neu brosesau rydych yn eu trafod yn eich atebion.

### 3. Beth yr hoffech chi ei wneud:

Gallwch ddarparu'r wybodaeth hon ar y fformat sy'n teimlo'n fwyaf addas i chi. Dylai datganiadau ysgrifenedig gadw at y nifer o eiriau a nodir isod. Rydym hefyd yn croesawu recordiadau sain neu fideo hyd at 5 munud o hyd. Os hoffech gyflwyno eich datganiad

mewn ffordd arall, nas nodir yma, cysylltwch â ni os gwelwch yn dda, er mwyn ein helpu i baratoi ar gyfer eich cyflwyniad.

Disgrifiwch sut yr hoffech ddefnyddio'r stiwdio i ddatblygu'ch gwaith. Gallai hyn gynnwys syniadau ymchwil, ffyrdd newydd o greu gwaith, neu ddeunyddiau newydd yr hoffech eu datblygu ar gyfer gwaith yn y dyfodol. Nid oes angen i ni wybod beth all fod yn gynnyrch terfynol. Rydym â diddordeb yn y defnyddiau rydych am eu defnyddio, eich ffordd o weithio, y math o bethau'r hoffech chi eu creu, eich agwedd at amser yn y stiwdio a'ch diddordebau. (uchafswm o 150 gair)

Bydd artistiaid Jerwood UNITE yn rhan o gymuned stiwdio, yn cydweithio ag / ochr yn ochr ag eraill. Disgrifiwch sut fyddai bod yn rhan o gymuned stiwdio gefnogol yn fuddiol i'ch gwaith. (uchafswm o 100 gair)

Soniwch am eich uchelgais tymor hir a sut gallai Jerwood UNITE eich helpu i gyflawni hyn. (uchafswm o 150 gair)

Hoffem hefyd petaech yn dweud wrthym yn fras am y gwaith rydych wedi'i anfon. Sut greoch chi'r gwaith a pha brosesau (prosesau ymarferol a meddyliol) wnaeth arwain at greu'r gwaith? (uchafswm o 150 gair)

#### 4. Oes gennych chi anghenion hygyrchedd yr hoffech i ni fod yn ymwybodol ohonynt?

Dwedwch wrthym am unrhyw anghenion hygyrchedd penodol sydd gennych / gofalu am blant neu ddibynnyddion, llety yng Nghaerdydd ar gyfer artistiaid sy'n byw fwy na 90 munud i ffwrdd. Rydym yn agored i drafod er mwyn dod o hyd i'r gefnogaeth orau i chi. (uchafswm o 100 gair)

#### 5. Gwybodaeth bellach

Rydym wedi clustnodi dau o'r cyfleoedd hyn ar gyfer artistiaid Duon, Asiaidd neu o gefndiroedd ethnig amrywiol, a thri ar gyfer artistiaid sydd wedi'u lleoli yng Nghymru / artistiaid Cymreig. Rhowch wybod os hoffech gael eich ystyried ar gyfer un neu'r ddau gyfle a glustnodwyd. Ni fyddwn yn gwneud unrhyw ragdybiaeth ynglŷn â'ch cefndir, eich hunaniaeth na chategori ymgeiswyr (Edrychwch ar ein Cwestiynau Cyffredin am wybodaeth bellach). (uchafswm o 100 gair)

#### **Anfonwch at:**

**Anfonwch eich ymateb i gwestiynau 1-5 drwy e-bost at [unite@g39.org](mailto:unite@g39.org) gyda'r llinell bwnc:**

UNITE\_2021 EnwCyntaf\_Cyfenw

*Byddwch yn derbyn cydnabyddiaeth awtomatig a dolen i ffurflen fonitro cydraddoldeb opsiynol.*

*Os ydych yn cyflwyno cais ar ffurf sain neu fideo, e-bostiwch ddolen yn hytrach nag atodiad. Os yw hyn yn peri trafferth, cysylltwch â ni. Ni fyddwn yn gwneud asesiad ar sail ansawdd y cynhyrchiad sain neu fideo, ond mae'n bwysig bod eich ymateb ar y recordiad yn glir fel bod modd i banel ddeall eich atebion.*

**Neu drwy'r post:**

UNITe\_2021, g39 Stryd Rhydychen, CAERDYDD CF24 3DT

*O.N. Ni allwn ddychwelyd deunyddiau a anfonir drwy'r post. Mae'n rhaid i'ch deunyddiau gyrraedd erbyn y dyddiad cau. Ni allwn gymryd cyfrifoldeb am eitemau sy'n cyrraedd yn hwyr neu sy'n mynd ar goll.*

**Dyddiad Cau: 6 Ionawr 2021 (06/01/21)**

**Cyfweliadau: 20 Ionawr 2021 (20/01/21)**

## Cwestiynau Cyffredin

Os oes gennych chi gwestiynau pellach, mae'n bosib y cewch hyd i'r ateb yn ein hadran Cwestiynau Cyffredin isod. Os na ddewch o hyd i ateb yno, byddwn hefyd yn cynnal sesiynau cynghori ar ffurf dau weithdy grŵp mynediad agored, drwy gyfrwng ZOOM **Dydd Sadwrn, 19eg Mis Rhagfyr 2020, 10yb a Dydd Llun, 4ydd Mis Ionawr 2021, 5yp.**

Yn ystod y sesiynau hyn bydd cyfle i chi gyfarfod ag aelod o dîm g39 cyn cychwyn ar eich cais. Nid yw'n bosib i ni ddarllen ceisiadau drafft na gwaith ysgrifenedig, ond gallwn drafod pa mor addas ydych a natur y rhaglen a'ch cynghori am sut i gryfhau eich cais.

Bwciwch le yma neu ymweld a: [www.eventbrite.co.uk](http://www.eventbrite.co.uk)  
a chwilio am *g39 Jerwood UNITE FAQ Session*

### Beth yw g39?

Mae g39 yn sefydliad o dan arweiniad artistiaid sydd wedi'i leoli yng Nghaerdydd. Yn oriel, cymuned ac adnodd, mae g39 yn cynnig gofod croesawgar i bobl brofi celf gyfoes fwyaf cyffrous a pherthnasol Cymru. Rydym yn comisiynu gwaith cyfoes arloesol a heriol gan artistiaid ac yn ei rannu â chynulleidfaoedd eang.

Y berthynas ag artistiaid sydd wrth galon gwaith g39. P'un ai gwirfoddoli, profiad gwaith, ymweliadau stiwdio, sesiynau cynghori, cymdeithasu anffurfiol, sgysiau gan artistiaid a churaduron gwadd, dangosiadau ffilm, cinio ynghyd neu arddangosfeydd unigol uchelgeisiol - drwy'r holl weithgareddau hyn, ein nod yw annog a hwyluso gwaith pob un sydd am greu celf weledol.

### Pwy yw Jerwood Arts?

Cyllidwr annibynnol yw Jerwood Arts sydd wedi ymrwmo i gefnogi artistiaid, curaduron a chynhyrchwyr i ddatblygu a ffynnu. Mae Jerwood yn cydweithio â sefydliadau er mwyn cynnig cyfleoedd trawsnewidiol i unigolion ar gychwyn gyrfa, drwy wobrau, cymrodoriaethau, comisiynau a rhaglenni megis hon.

### Hoffwn wybod rhagor am y rhaglen

Mae'r rhaglen yn cynnwys gweithgareddau megis sgysiau gan artistiaid / curaduron, sesiynau un wrth un gydag artistiaid / curaduron gwadd, gweithdai a'r cyfle i gymryd rhan mewn teithiau ymchwil.\*

Bydd gennych hefyd fynediad at lyfrgell ymchwil\*, cyfrifiadur y gallwch ei logi ar gyfer gwaith dylunio a golygu, offer a deunyddiau AV g39 (mae'n bosib y bydd angen profiad blaenorol arnoch cyn defnyddio'r offer pŵer), a'r cyfan mewn amgylchedd cyfeillgar a chefnogol.

Er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu gwneud y mwyaf o'u hamser ar y rhaglen, gallwn gynnig cefnogaeth hygyrchedd. Gallwn gyfrannu tuag at gostau er mwyn sicrhau y gallwch gymryd rhan a chanolbwyntio fwyfwy ar eich amser yn y stiwdio a chymryd rhan yn rhaglen Jerwood UNITE. (Er enghraifft, anghenion hygyrchedd penodol, costau cefnogaeth, gofal plant a theithio).

Gallwn hefyd gyfrannu at gostau llety i artistiaid sy'n byw dros 90 munud i ffwrdd o Gaerdydd (mewn car).

Os byddwch yn cael eich dewis, mae'n bosib y bydd modd i ni gefnogi cais am gyllid ychwanegol os byddwch angen cefnogaeth ariannol pellach er mwyn cymryd rhan yn llawnach.

### Beth a olygir wrth artist ar gychwyn gyrfa?

### **Ydw i'n artist ar gychwyn gyrfa?**

Nid ydym yn awyddus i roi diffiniad, rhag ofn i ni eithrio pobl. Rydym ni wedi datblygu'r cyfle hwn er mwyn gweithio gydag artistiaid sydd heb gyflawni pob uchelgais eto. Nid oes gennym syniad penodol am yr uchelgeisiau hyn na'r hyn y dylent fod. Rydym yn ymwybodol bod sawl ffordd o ystyried llwyddiant. Nid yw oedran yr artist yn ystyriaeth wrth benderfynu a yw'n gymwys ai peidio.

Os ydych chi'n teimlo y byddai'r cyfle hwn gyda g39 yn fuddiol i'ch gwaith, yna byddem yn croesawu'ch cais i fod yn rhan o'r rhaglen gymrodoriaeth hon.

### **Rydw i wedi ymwneud â g39 yn y gorffennol. Ydw i'n gymwys?**

Os nad ydych yn siŵr, neu os hoffech drafod a ydych yn gymwys, yna anogwn chi i gysylltu â ni. Dyma ganllaw: os ydych wedi gwirfoddoli â g39, wedi cyflwyno gwaith mewn arddangosfeydd a gefnogwyd gan g39 (e.e. Arddangosfa Agored Made in Roath, Empower Me), neu wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau megis gweithdai, digwyddiadau neu sgysiau yn g39, yna **rydym yn eich annog i ymgeisio**.

Os ydych eisoes wedi derbyn ffi gan g39 i greu gwaith celf, arwain gweithdy neu roi sgwrs artist neu rywbeth tebyg yn y gorffennol, yna ni fyddwn yn eich eithrio o reidrwydd **ond byddwn yn ffafrio ceisiadau gan artistiaid sydd heb weithio gyda g39 ar brosiect creadigol o'r blaen**. Efallai hoffech esbonio'r sefyllfa yn eich datganiad, neu drwy gysylltu â ni i drafod hyn.

### **Ga i gyflwyno mwy nag un cais?**

Dim ond un cais gan bob artist y byddwn yn ei dderbyn.

### **Nid wyf yn siŵr beth i ysgrifennu yn fy natganiad**

Nid ydym yn chwilio am gynigion ar gyfer arddangosfa neu brosiectau gorffenedig. Rydym yn chwilio am syniadau arbrol, cynlluniau ymchwil, cyfeiriadau newydd i'ch gwaith neu ddefnydd arloesol o'r stiwdio.

Hoffem hefyd wybod am eich ffordd arferol o weithio ac (mewn ffordd ymarferol) sut yr hoffech ddefnyddio'r stiwdio. Mae'n ddefnyddiol deall yn fras am feysydd eich ymchwil neu'r datblygiad yr hoffech ei archwilio.

Os bwriedwch symud ffocws eich gwaith o faes creadigol perthnasol arall i ymarfer celfyddydau gweledol cyfoes, yna esboniwch hyn yn eich cais fel ein bod yn deall hyn wrth drafod esiamplau o'ch gwaith.

### **Mae gen i ymrwymadau eraill yn ystod cyfnod rhaglen UNITE**

Rydym yn annog yr artistiaid dethol i gymryd rhan drwy gydol y rhaglen (Mis Ebrill – Mis Mehefin 2021) ac i fod ar gael ar gyfer cynifer o'r gweithgareddau â phosib, ond nid yw UNITE yn ymrwymiad llawn amser. Mae artistiaid blaenorol UNITE wedi ymrwmo i un diwrnod yr wythnos, er enghraifft.

### **Beth ydych chi'n ei olygu wrth 'addysg ffurfiol'?**

Rydyn ni'n diffinio addysg 'ffurfiol' fel unrhyw gwrs neu astudiaeth fydd yn arwain at gymhwyster ffurfiol. Mae hyn yn cynnwys ond nid yw'n gyfyngedig i gysiau prifysgol/coleg, yn cynnwys astudiaethau PhD. Nid yw 'hyfforddiant' yn dod i'r categori hwn.

### **Ga i anfon cymysgedd o fideo, gwaith sain, testun a delweddau fel enghreifftiau o waith?**

Cewch, mae croeso i chi anfon cyfuniad o wahanol gyfryngau. Anfonwch beth bynnag fydd yn adlewyrchu eich gwaith orau, a'r darnau sy'n fwyaf perthnasol i'ch cais. Cofiwch mai amser cyfyngedig fyddwn ni'n ei dreulio yn ystyried y gwaith a gyflwynir gyda phob cais.

Ystyriwch, er enghraifft, anfon 5 delwedd a chlip 2.5 munud o hyd o waith fideo neu sain yn hytrach na 10 delwedd a chlip 5 munud o fideo. Cofiwch sicrhau bod y dolenni yn gweithio a'ch bod wedi



anfon unrhyw gyfrineiriau angenrheidiol aton ni. Os ydych chi wedi cytuno i anfon eich cais drwy'r post, peidiwch ag anfon darnau celf gwreiddiol. Ni fydd modd i ni ddychwelyd unrhyw waith a ddaw gyda'ch cais.

### **Pa gostau hygyrchedd y galla i eu hawlio?**

Mae modd i gostau hygyrchedd gynnwys gofynion hygyrchedd penodol, gofal plant / gofal dibynyddion a llety yng Nghaerdydd i artistiaid sy'n byw dros 90 munud i ffwrdd. Rydyn ni'n agored i drafod hyn gyda chi, er mwyn canfod yr hyn rydych ei angen.

### **Rwy'n ystyried fy hun yn artist, ond ni astudiais gelf. Ydy hyn yn dderbyniol?**

Ydy. Byddwn yn edrych am dystiolaeth o ymarfer celf weledol gyfoes ac ymrwymiad i ddatblygu yn eich maes, yn hytrach na chymwysterau. Rydym ni hefyd yn ymwybodol iawn bod arfer gyfoes yn cyfuno sawl genre a dull, ac rydyn ni'n edrych ymlaen at glywed am ddisgyblaethau sy'n cydgysylltu.

### **Pam oes rhaid i mi ddweud wrthyf am fy nghefnidir a'm hunaniaeth?**

Mabwysiadodd g39 bolisi Gweithredu Cadarnhaol, fel y'i diffiniwyd yng Nghod Statudol Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn caniatáu gweithredu mewn modd sy'n sicrhau canlyniadau mwy effeithiol i unigolion sy'n perthyn i grwpiau sy'n wynebu anfantais gymdeithasol neu economaidd. Mae hefyd yn diogelu unigolion sy'n wynebu gwahaniaethu oherwydd ffactor neu anfantais arall boed yn y gorffennol neu heddiw.

Ar ôl anfon eich cais byddwch yn derbyn dolen i ffurflen fonitro cydraddoldeb opsiynol. Nodwch fod y ffurflen hon yn ddienw ac ni fydd eich atebion yn cael eu cysylltu i'ch ffurflen gais.

Ni fyddwn yn cymryd unrhyw beth yn ganiataol am gefndir, hunaniaeth na chategori ymgeiswyr. Os ydych chi am i ni ystyried eich cais yng nghyd-destun y ffactorau hyn, gofynnwn i chi nodi hyn yn eich cais.

### **Sut fyddwch chi'n dewis yr artistiaid?**

Bydd y panel dewis yn penderfynu pwy fydd yn cael cyfweiliad. Mae'r panel yn cynnwys holl staff g39, sef, Cinzia Mutigli, Sam Hasler, Anthony Shapland, Ellie Young a Chris Mooney-Brown, yn ogystal â detholydd annibynnol. Michelle Williams Gamaker yw detholydd annibynnol y cyfle hwn. Caiff y gwaith a gyflwynir ei weld a'i asesu gan aelodau'r panel yn annibynnol. Yna daw'r panel ynghyd i lunio rhestr fer o wyth artist a fydd yn cael cyfweiliad.

### **Beth fydd trefn y cyfweiliad?**

Bydd y cyfweiliad yn sgwrs 30 munud o hyd gyda thri o bobl - dau aelod o staff g39 a Michelle. Mae'n debygol o ddigwydd yn rhithiol, ar ffurf Zoom. Os oes angen cefnogaeth hygyrchedd arnoch ar gyfer y cyfweiliad, e.e. dehongliad laith Arwyddion Prydain, gallwn ei ddarparu.

Byddwn yn anfon y cwestiynau atoch ymlaen llaw, gan ein bod yn gweld y cyfweiliad fel cyfle i ddod i wybod mwy am eich cais.

### **Pa mor gystadleuol yw'r cyfle hwn?**

Rydym yn disgwyl derbyn nifer uchel o geisiadau o safon uchel, ac ni fydd modd i ni gefnogi bob cais da a dderbyniwn. Yn 2019 derbyniwyd 70 cais ar gyfer wyth lle ar raglen UNITE.

### **Pryd fydda i'n derbyn ymateb?**

Rydym yn gobeithio cysylltu â phob artist erbyn diwedd y dydd Dydd Iau, 14eg, Mis Ionawr 2021 fan hwyraf. Byddwn yn ymateb i bob ymgeisydd ac yn cynnig adborth ar ffurf e-bost gan y panel i'r ymgeiswyr aflwyddiannus.

Nid dyma'r unig gyfle i siarad â ni. Os byddwch yn teimlo yr hoffech drafod eich gwaith ymhellach, neu ddod i wybod rhagor am g39, cymerwch fantais ar ein cyfarfodydd un wrth un sydd ar gael

drwy gydol y flwyddyn, neu unrhyw un o'r cynlluniau warp. Drwy gyfrwng y rhai hyn gallwn drafod eich ymarfer a'ch datblygiad mewn mwy o fanylion.